OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 555

## Gorchymyn Railtrack plc (Gwerth Ardrethol) (Cymru) 2000

**Y ffactor ailgyfrifo**

**5.**—(1) Mewn unrhyw flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2001, neu ar ôl hynny, gwerth ardrethol yr hereditament perthnasol fydd y swm a geir drwy adio £6,240,000 a'r ffactor ailgyfrifo a gyfrifir o dan yr Erthygl hon.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), mae'r paragraff hwn yn gymwys at ddibenion cyfrifo'r ffactor ailgyfrifo pan yw'r swm ynglŷn â blwyddyn berthnasol a geir drwy gyfrifo ynglŷn â'r hereditament perthnasol yn unol â'r fformwla —

$$\frac{k - K}{K}$$

yn 0.05, −0.05 neu unrhyw rif sydd rhwng y rhifau hyn.

(3) Y ffactor ailgyfrifo ynglŷn â blwyddyn berthnasol y mae paragraff (2) yn gymwys iddi yw 0.

(4) Ynglŷn â blwyddyn berthnasol —

(a) y mae'r swm a gyfrifir mewn perthynas â hi yn unol â pharagraff (2) yn fwy na 0.05 neu'n llai na −0.05, neu

(b) nad yw paragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â hi mewn perthynas â'r flwyddyn flaenorol berthnasol,

y ffactor ailgyfrifo yw'r swm a geir drwy gyfrifo yn unol â'r fformwla —

$$T \left( \frac{k - K}{K} \right)$$

(5) At ddibenion yr erthygl hon —

gwerth T yw £6,240,000;

K yw'r amcangyfrif o hyd y trac perthnasol ar 31 Mawrth 2000;

k yw'r amcangyfrif o hyd y trac perthnasol ar 31 Mawrth yn y flwyddyn flaenorol berthnasol.